

Ymateb Llywodraeth Cymru i argymhellion Adroddiad y Pwyllgor Cyllid: Y paratodau ar gyfer disodli ffrydiau cyllido'r Undeb Ewropeaidd yng Nghymru

Mae Llywodraeth Cymru yn croesawu adroddiad y Pwyllgor Cyllid, *Y paratodau ar gyfer disodli ffrydiau cyllido'r UE yng Nghymru*. Mae'n gyfraniad pwysig ac amserol i'r drafodaeth ar y pwnc allweddol hwn. Mae adroddiad y Pwyllgor yn rhoi cefnogaeth gref i'r safbwynt y mae Llywodraeth Cymru yn ei arddel ar hyn o bryd, ac y bydd yn parhau i'w arddel, yn glŷn â chyllid yr UE.

Rydym yn derbyn pob un o argymhellion y Pwyllgor. Mae nifer o argymhellion yn yr adroddiad yn glŷn â Chronfa Ffyniant Gyffredin y DU. Hyd yma, ychydig iawn o wybodaeth a gafwyd gan Lywodraeth y DU yn glŷn â'i bwriadau o ran Cronfa Ffyniant Gyffredin. Rydym yn derbyn bod y ffaith fod y DU yn ymadael â'r Undeb Ewropeaidd yn golygu bod angen sefydlu fframweithiau cyffredin mewn nifer o feysydd, gan gynnwys cymorth gwladwriaethol (a fyddai'n ymwneud â chanllawiau ar gymorth rhanbarthol a'r mapiau cysylltiedig) ac rydym yn barod i ddechrau cydweithio â Llywodraeth y DU a'r gweinyddiaethau datganoledig eraill i ddatblygu fframweithiau o'r fath a chytuno arnynt. Fodd bynnag, rydym yn gwrthwynebu'n sylfaenol unrhyw syniad gan Lywodraeth y DU ynghylch canoli'r polisi datblygu economaidd rhanbarthol, ac rydym yn gwrthwynebu'r syniad o Gronfa Ffyniant Gyffredin a weinyddir yn Whitehall.

Ers i Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid roi tystiolaeth i'r Pwyllgor Cyllid ym mis Mehefin, mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi papur, *Diwygio trefniadau ariannu a chodi cyllid y DU ar ôl Brexit*¹ – sy'n nodi ein safbwynt ar y materion hyn yn fanylach, gam adeiladu ar ein Papur Gwyn *Diogelu Dyfodol Cymru* a'r dogfennau polisi a'i dilynodd.

Argymhelliad 1: Mae'r Pwyllgor yn cefnogi Llywodraeth Cymru wrth iddi roi blaenoriaeth i'r trafodaethau â Llywodraeth y Deyrnas Unedig i gael y fargen gyllido orau bosibl, i sicrhau na fydd Cymru "geiniog ar ei cholled" ar ôl Brexit. Mae'r Pwyllgor yn argymhell fod Llywodraeth Cymru yn parhau i geisio trafod â Llywodraeth y Deyrnas Unedig, a bod Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn ymrwymo i drafodaeth lawn ar y mater hwn.

Ymateb: Derbyn.

Rydym yn cytuno â barn y Pwyllgor na ddylai Cymru fod geiniog ar ei cholled olewydd Brexit ac y dylid gwireddu'r addewidion a gafodd eu gwneud i bobl Cymru yn ystod ymgyrch y refferendwm. Mewn cyfarfod pedairochrog diweddar rhwng y Gweinidogion Cyllid, ategodd y Gweinidog Cyllid safbwynt Llywodraeth Cymru na ddylai gadael yr UE arwain at unrhyw ostyngiad yn yr arian sydd ar gael i Gymru ac na ddylai effeithio ychwaith ar y pwerau a ddatganolwyd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru mewn perthynas â datblygu economaidd, amaeth nac unrhyw faes arall.

¹ <https://gov.wales/docs/caecd/publications/180717-reforming-funding-after-brexit-cy.pdf>

Mae'n siom fawr nad oes unrhyw eglurder pellach inni ynghylch bwriadau Llywodraeth y Du y tu hwnt i'r cyfnod sydd o fewn y gwarant ar gyfer cyllid i raglenni'r UE. Byddwn yn parhau i geisio cytundeb â Llywodraeth y DU ynglŷn â'r trefniadau cyllido yn y dyfodol wrth i'r DU ymadael â'r UE.

Goblygiadau Ariannol – Dim un sy'n codi'n uniongyrchol o'r ymateb..

Argymhelliad 2. Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda Llywodraeth y Deyrnas Unedig a gweinyddiaethau datganoledig eraill i ddatblygu dewis amgen hirdymor cynaliadwy yn lle fformiwla Barnett, sy'n dyrannu cyllid ar draws y Deyrnas Unedig yn seiliedig ar angen.

Ymateb: Derbyn.

Mae'r papur *Diwygio trefniadau ariannu a chodi cyllid y DU ar ôl Brexit* yn nodi ein cynigion ar gyfer cyflwyno system newydd, yn seiliedig ar reolau, yn lle fformiwla Barnett. Byddai ein dull ni yn sicrhau bod adnoddau'n cael eu dyrannu o fewn y DU ar sail angen cymharol.

Goblygiadau Ariannol – Dim un sy'n codi'n uniongyrchol o'r ymateb..

Argymhelliad 3. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn cyd-drafod â Llywodraeth y Deyrnas Unedig i sicrhau o leiaf yr un swm o arian i Gymru yn y lle cyntaf drwy Gronfa Ffyniant Gyffredin y DU â'r hyn y mae'n ei gael ar hyn o bryd drwy Gronfeydd Strwythurol, ynghyd â chwyddiant. Dylid ychwanegu hyn at Grant Bloc Llywodraeth Cymru, a dylai'r trefniant barhau.

Ymateb: Derbyn.

Rydym yn gwrthwynebu'r syniad o Gronfa Ffyniant Gyffredin i'r DU sy'n cael ei gweinyddu yn Whitehall. Mae ei safbwynt ynglŷn â lefel y cyllid a ddylai fod ar gael i Gymru ar ôl Brexit yn glir: rhaid i Lywodraeth y DU wireddu'r addewidion a roddwyd i bobl Cymru yn ystod ymgyrch y refferendwm, sef na ddylai ymadael â'r UE olygu bod sefyllfa ariannol Cymru yn waeth na phe baem wedi aros yn rhan o'r UE.

Rydym yn cytuno y dylai gwaelodlin grant bloc Llywodraeth Cymru gael ei chodi yn unol â lefel y cyllid yr ydym yn ei dderbyn gan yr UE bob blwyddyn ar hyn o bryd, heb unrhyw adfachu na blaendorri gan Lywodraeth y DU.

Goblygiadau Ariannol – Dim un sy'n codi'n uniongyrchol o'r ymateb..

Argymhelliad 4. Mae'r Pwyllgor yn nodi'r dystiolaeth a gafwyd gan y Dr Hywel Ceri Jones, cyn Lysgennad Cyllido yr UE, ac Ysgrifennydd y Cabinet fod angen uned ganolog yn Llywodraeth Cymru ar ôl Brexit i sicrhau fod ganddi'r capasiti a'r arbenigedd angenrheidiol. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn negodi gyda Llywodraeth y Deyrnas Unedig i sicrhau bod Llywodraeth Cymru yn cael y cyfrifoldeb am weinyddu a rheoli Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU yng Nghymru.

Ymateb: Derbyn.

Mae Llywodraeth Cymru yn gwrthod y syniad o Gronfa Ffyniant Gyffredin i'r DU a fyddai'n tynnu'n ôl y penderfyniadau sy'n cael eu gwneud yng Nghymru ar hyn o bryd mewn perthynas â'r £370m y flwyddyn a dderbynnir drwy Gronfeydd Stwythurol a Buddsoddi Ewrop. Mae'r addewidion dro ar ôl tro gan y Prif Weinidog a'i Chabinet y byddant yn parchu datganoli ac y dylai ein pwerau gynyddu o ganlyniad i Brexit yn golygu bod angen i'n cyfrifoldebau presennol yn y meysydd hyn gael eu cadw a'u cryfhau. Rhaid i Lywodraeth Cymru barhau i allu pennu'r cyfeiriad strategol a'r blaenoriaethau ar gyfer y cronfeydd a ddaw yn lle'r rhai presennol, a hi hefyd ddylai fod yn gyfrifol am eu gweinyddu a'u rheoli.

Goblygiadau Ariannol – Dim un sy'n codi'n uniongyrchol o'r ymateb..

Argymhelliad 5. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn sefydlu uned ganolog sydd â'r arbenigedd a'r capasiti angenrheidiol i ddarparu rhaglen gydlynus o gyllid ar ôl Brexit.

Ymateb: Derbyn.

Mae gan Lywodraeth Cymru arbenigedd a chapasiti sylweddol, sydd wedi'u meithrin dros yr 20 mlynedd diwethaf, ym maes gweithredu rhaglenni trawslywodraethol yr UE mewn partneriaeth agos â rhanddeiliaid ledled Cymru. Mae'r rhan fwyaf o'r arbenigedd hwn wedi'i leoli'n ganolog yn barod o fewn Swyddfa'r Prif Weinidog a Swyddfa'r Cabinet, yn arbennig yn Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru. Rydym wedi dynodi adnodd canolog i ddatblygu'r trefniadau cyllido yn y dyfodol, yn unol â'n hymrwymadau i ddechrau cydgynhyrchu yn awr. Byddwn yn cadw golwg fanwl ar y trefniadau o ran adnoddau, er mwyn sicrhau bod yr arbenigedd a'r capasiti priodol ar gael wrth i'r gwaith hwn ddatblygu.

Rydyn ni, fodd bynnag, yn cynnal y gwaith datblygu hwn ar draws y Llywodraeth i gyd a byddwn yn manteisio ar arbenigedd o bob rhan o Gymru. Er mai'r uned ganolog fydd yn cynnal y momentwm ar gyfer y gwaith hwn, bydd cydweithio mewn amrywiaeth eang o feysydd yn sicr yn elfen hanfodol o'n proses. Yn arbennig, mae'r gweithgarwch yn cael ei gydlynu'n agos â'r gwaith sydd ar y gweill yn Adran yr Economi, Sgiliau a Chyfoeth Naturiol i roi'r Cynllun Gweithredu ar yr Economi ar Waith.

Goblygiadau Ariannol – Dim un sy'n codi'n uniongyrchol o'r ymateb..

Argymhelliad 6. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn canolbwyntio ar symleiddio'r trefniadau gweinyddol ac yn defnyddio dulliau fel y rhai a gynigir ar gyfer sefydliadau partner dibynadwy, pe bydd yn gallu datganoli Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU.

Ymateb: Derbyn.

Bydd Llywodraeth Cymru yn edrych ar ystod eang o fodolau cyflenwi, gan fanteisio ar yr arferion gorau yn rhyngwladol a chanolbwyntio ar symleiddio o ddifrif. Rydym wedi ymrwymo i broses ddatblygu ar sail cydgynhyrchu, a fydd yn helpu i osgoi

cymhlethdod anfwriadol. Er na allwn ragfarnu canlyniadau'r broses honno, mae'n amlwg y byddai manteision sylweddol id dull gweithredu ar sail partneriaeth o ymddiriedaeth, a fyddai'n caniatáu agwedd fwy cymesur at risg na'r hyn a ganiateir dan raglenni a gyllidir gan yr UE. Byddai peidio â sefydlu trefniadau ariannu yn y dyfodol o fewn strwythurau ariannol datganoledig yn creu beichiau gweinyddol ychwanegol.

Goblygiadau Ariannol – Dim un sy'n codi'n uniongyrchol o'r ymateb..

Argymhelliad 7. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn parhau i ganolbwyntio ar hybu cydraddoldeb, mynd i'r afael â thlodi, a hawliau dynol wrth weinyddu cyfran Cymru o Gronfa Ffyniant Gyffredin y DU yn y dyfodol.

Ymateb: Derbyn.

Mae partneriaid ledled Cymru wedi pwysleisio eu bod yn gwerthfawrogi'r pwyslais yn ein rhaglenni Ewropeaidd ar hyrwyddo cydraddoldeb a hawliau dynol, trechu tlodi a hyrwyddo cynaliadwyedd amgylcheddol. Rydym am gadw'r rhain a nodweddion allweddol eraill, ac adeiladu arnynt wrth sefydlu'r trefniadau olynol. Mae'r dull gweithredu hwn, a ymgorfforir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, hefyd yn dangos yr angen i Lywodraeth Cymru dderbyn dyraniad ariannu heb amodau, o gofio'r dulliau gweithredu gwahanol sydd ar waith o ran polisïau a deddfwriaeth ar draws gwahanol wledydd y DU.

Goblygiadau Ariannol – Dim un sy'n codi'n uniongyrchol o'r ymateb.

Argymhelliad 8. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn cyd-drafod â Llywodraeth y Deyrnas Unedig i sicrhau bod Cymru yn parhau i gael y lefel bresennol o gyllid ar ôl i'r Deyrnas Unedig adael y Polisi Amaethyddol Cyffredin. Dylid gwarantu hyn am nifer o flynyddoedd er mwyn rhoi sicrwydd i'r sector rheoli tir.

Ymateb: Derbyn.

Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i bwysu ar Lywodraeth y DU am fwy o sicrwydd ynghylch lefelau cyllido ar ôl i'r DU ymadael â'r Polisi Amaethyddol Cyffredin. Mae Gweinidogion Cymru yn glir na ddylai ymadael â'r UE olygu unrhyw leihad yn y cyllid sydd ar gael i dir Cymru. Rydym wedi dadlau o blaid system newydd sy'n seiliedig ar reolau ac sy'n sicrhau bod dyraniad adnoddau yn y DU yn y dyfodol wedi'i seilio ar angen cymharol. Unwaith y bydd y cyllid wedi'i ddychwelyd i Gymru, bydd Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod yr arian yn cael ei gyfeirio at gynorthwyo rheolaeth tir yn hytrach nag yn cael ei wario mewn meysydd eraill.

Goblygiadau Ariannol – Dim un sy'n codi'n uniongyrchol o'r ymateb..

Argymhelliad 9. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda Llywodraeth y Deyrnas Unedig a'r gweinyddiaethau datganoledig eraill i sicrhau bod fframwaith y Deyrnas Unedig gyfan ar gyfer cymorth amaethyddol yn parchu'r setliad datganoli ac yn rhoi'r hyblygrwydd mwyaf posibl i Lywodraeth Cymru i'w galluogi i wneud penderfyniadau sy'n cefnogi anghenion penodol y sector rheoli tir yng Nghymru.

Ymateb: Derbyn.

Mae Llywodraeth Cymru wrthi'n gweithio gyda Llywodraeth y DU a'r gweinyddiaethau datganoledig eraill i gytuno ar fframwaith priodol ar gyfer cymorth amaethyddol ar draws y DU. Mae Llywodraeth Cymru wedi cytuno gyda Llywodraeth y DU y bydd mwyafrif y fframwaith yn cael ei reoli drwy gydlyn rhwng llywodraethau, heb fod yn ddeddfwriaethol. O ganlyniad i hynny, ni fydd Cymru'n cael ei chyfyngu wrth lunio cynlluniau newydd a bydd yn gallu gweithredu yn ôl yr hyn sydd orau i Gymru.

Goblygiadau Ariannol – Dim un sy'n codi'n uniongyrchol o'r ymateb.

Argymhelliad 10. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn annog Llywodraeth y Deyrnas Unedig i gynnal perthynas barhaus â Banc Buddsoddi Ewrop ar ôl Brexit i sicrhau y gall Cymru a'r Deyrnas Unedig elwa o fuddsoddiad parhaus mewn prosiectau seilwaith allweddol.

Ymateb: Derbyn.

Rydym yn rhannu pryder y Pwyllgor ynghylch perthynas y DU â Banc Buddsoddi Ewrop ar ôl Brexit. Fe wnaethom ategu'r pryderon hyn yn ein tystiolaeth ddiweddar i ymchwiliad Tŷ'r Arglwyddi i ddyfodol perthynas y DU â'r Banc. Ym mis Hydref, ysgrifennodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid at y Canghellor yn mynegi pryderon ynglŷn â'r diffyg cynnydd o ran cyflwyno opsiynau credadwy ar gyfer y berthynas yn y dyfodol. Ategodd y pwynt hwnnw yn y cyfarfod pedairochrog diweddar rhwng y Gweinidogion Cyllid.

Mae Llywodraeth Cymru wedi dweud yn hollol glir bod angen i'r DU sicrhau, fan leiaf, bod mandad ar gyfer parhau â benthyciadau gan Fanc Buddsoddi Ewrop yn y DU yn ystod y cyfnod ar ôl inni ymadael â'r UE.

Byddwn yn parhau i bwysu ar Lywodraeth y DU i weithredu ar frys fel nad ydym yn cael ein gadael mewn sefyllfa, ar 29 Mawrth y flwyddyn nesaf, lle na fydd modd i fusnesau, prifysgolion a chyrrff cyhoeddus Cymru fanteisio bellach ar fuddsoddiadau gan Fanc Buddsoddi Ewrop.

Goblygiadau Ariannol – Dim un sy'n codi'n uniongyrchol o'r ymateb..

Argymhelliad 11. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU yn cydweithio i ystyried dulliau o sicrhau bod modd i Gymru gadw manteision ffrydiau ariannu'r UE i hybu cydraddoldeb, fel y rhaglen Hawliau, Cydraddoldeb a Dinasyddiaeth, a bod y cyllid hwn yn parhau ar ôl Brexit.

Ymateb: Derbyn

Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i drafod gyda Llywodraeth y DU sut y gellir parhau i sicrhau mynediad at amryw o raglenni'r UE o 2021 ymlaen. Mae cyfranogiad yn y rhaglen Hawliau. Cydraddoldeb a Dinasyddiaeth yn opsiwn sy'n cael ei gadw'n agored, yn amodol ar drafodaethau pellach.

Goblygiadau Ariannol – Dim un sy'n codi'n uniongyrchol o'r ymateb..